Papur 6

CLlLC
WLGA

# Tystiolaeth

25 Ionawr 2024

## Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Craffu ar y Bil Cyllid Llywodraeth Leol

Lisa Hayward, Swyddog Polisi Cyllid

Lisa.hayward@wlga.gov.uk 07880 358428

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru**
Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol.

Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Ein haelodau yw'r 22 o gynghorau yng Nghymru ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Credwn fod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.**
Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu â'u cynghorau trwy ddemocratiaeth leol. Trwy hyrwyddo'r cysylltiadau hynny, eu hwyluso a'u cyflawni, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n galluogi cymunedau i ffynnu.

**Ein nod sylfaenol** yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau cynghorau yng Nghymru.

**Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy**
- Hyrwyddo swyddogaeth a statws cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
- Sicrhau'r disgresiwn lleol mwyaf posib o ran deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
- Cefnogi a sicrhau cyllid hirdymor a chynaliadwy i gynghorau
- Hybu gwelliant dan arweiniad y sector
- Annog democratiaeth leol fywiog gan hybu mwy o amrywiaeth
- Cefnogi cynghorau i reoli eu gweithlu'n effeithiol

## Ymateb

1. Mae'r papur tystiolaeth hwn yn ymateb i'r cynigion a godwyd yn y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a osodwyd yn ddiweddar.

2. Fe welwch o'n sylwadau bod llywodraeth leol yn gefnogol iawn o'r cynigion a nodir yn y Bil.

3. Rydym yn cydnabod y caiff nifer o'r cynigion eu cyflawni trwy is-ddeddfwriaeth ychwanegol a fydd yn destun prosesau craffu ychwanegol.

## Cynigion y Bil

4. **O ran y system ardrethi annomestig, mae'r Bil yn cynnig:**

- **cynnal ailbrisiadau yn fwy aml bob tair blynedd, a rhoi pŵer i Weinidogion Cymru newid y flwyddyn ailbrisio a'r cyfnod rhwng blynyddoedd ailbrisio drwy reoliadau.**

Mae'r bil yn cydnabod bod angen i ardrethi annomestig fod mewn sefyllfa fwy adweitheddol. Mae cenhedloedd eraill y DU yn defnyddio'r un dull i fod yn fwy ymatebol i aflonyddwch economaidd. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, mae cynnal ailbrisiadau'n fwy aml yn taro cydbwysedd rhwng tegwch a sefydlogrwydd. Mae proses ailbrisio reolaidd wedi cael ei cheisio gan y sector busnes.

Rydym yn cefnogi'r cynigion hyn.

- **rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i roi, amrywio neu dynnu rhyddhad yn ôl.**

Mae rhyddhad ardrethi wedi cynyddu ac maent bellach yn cyfrif am tua £240 miliwn y flwyddyn gan ddarparu cymorth i dros hanner y 128,000 o eiddo yn y sylfaen drethu. Mewn cymhariaeth, mae Llywodraeth Cymru'n ariannu'r cynllun Gostyngiad yn Nhreth y Cyngor gyda £244 miliwn y flwyddyn ac mae hynny'n cefnogi dros 260,000 o aelwydydd ar hyn o bryd.

Mae gwerth ardrethol dros hanner yr eiddo yng Nghymru yn llai na £6,000 sy'n golygu mai ychydig ohonynt sy'n elwa o'r Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach sy'n golygu nad ydynt yn y rhan fwyaf o achosion yn talu unrhyw ardrethi o gwbl, waeth faint yw trosiant eu busnes. Gall eiddo sydd â gwerth ardrethol rhwng £6,000 a £12,000 hefyd gael rhyddhad ar sail raddedig. Eto, ni roddir ystyriaeth i elw unrhyw un o'r busnesau hyn. Ariennir y cynllun hwn yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru.

Unwaith mae rhyddhad wedi cael ei roi mewn lle am nifer o flynyddoedd, daw'n fwy anodd ei dynnu'n ôl ond rydym yn cydnabod bod pwerau Llywodraeth Cymru i newid rhai o'r gostyngiadau presennol yn gyfyngedig. Mae'r Bil yn ceisio newid hyn a

gwella'r cynllun yn y dyfodol trwy sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cael eu cyflwyno i'r Senedd i'w hystyried.

Rydym y cefnogi'r cynnig i roi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i roi, amrywio neu dynnu rhyddhad yn ôl.

- **cryfhau amodau cymhwyster ar gyfer rhyddhad elusennol i eiddo sy'n wag.**

Mae cyflwyno amodau cymhwyster ychwanegol yn sicrhau nad yw rhyddhad elusennol yn cael ei gamddefnyddio. Ni fyddai darparu tystiolaeth i ddangos bod yr elusen yn sefydliad gweithredol yn waith beichus a byddai'n lleihau'r posibilrwydd o osgoi talu ardrethi annomestig. Mae hyn yn amddiffyn y gronfa drethi yn gyffredinol ac, yn ei dro, cyllid llywodraeth leol. Mae hyn yn berthnasol i eiddo gwag yn unig ac ni effeithir ar elusennau dilys sydd eisoes mewn meddiannaeth.

Rydym yn cefnogi cryfhau'r amodau.

- **ehangu'r diffiniad o adeilad newydd at ddiben cyhoeddi hysbysiadau cwblhau gan awdurdodau lleol.**

Mae'r cynnig hwn yn ymateb i 'fwlch' a nodwyd mewn gweithdrefnau presennol. Mae cyhoeddi hysbysiad cwblhau ar gyfer adeilad a oedd wedi'i dynnu oddi ar y rhestr drethu yn flaenorol, yn golygu bod modd ei roi yn ôl ar y rhestr yn gynt ac felly'n atal oedi diangen i'r awdurdod a'r sawl sy'n atebol wrth anfonebu.

Rydym yn cefnogi ehangu'r diffiniad.

- **dileu cyfyngiad amser ar ddyfarnu ac amrywio rhyddhad dewisol gan awdurdodau lleol.**

Nid yw awdurdodau'n gallu dyfarnu na newid penderfyniad dewisol dros chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r penderfyniad yn gysylltiedig ag o. Mae'r Bil yn cynnig cael gwared ar hyn i ganiatáu i awdurdodau osod y rhyddhad perthnasol fel sy'n briodol.

Rydym yn cefnogi'r cynnig i ddileu'r cyfyngiad amser.

- **Rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i roi, amrywio neu dynnu eithriadau yn ôl.**

Ar hyn o bryd mae pwerau Gweinidogion Cymru i ragnodi eithriadau mewn rheoliadau yn gyfyngedig. Mae ystod o eithriadau rhag talu ardrethi annomestig yn cael eu nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol. Mae'r Bil yn cynnig pwerau gwneud rheoliadau i ddarparu cysondeb rhwng rhyddhad ac eithriadau a bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb a'r Senedd i graffu yn unol â hynny.

Rydym yn cefnogi'r cynnig i roi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i roi, amrywio neu dynnu eithriadau yn ôl.

- **rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i osod lluosyddion gwahaniaethol yn seiliedig ar y disgrifiad, gwerth ardrethol neu leoliad eiddo ar y rhestr leol, neu werth ardrethol eiddo ar y rhestr ganolog.**

Mae pob eiddo yng Nghymru yn destun un lluosydd. Er bod gan awdurdodau lleol y pŵer i osod atodiad fel mecanwaith ariannu, nid yw erioed wedi cael ei ddefnyddio y tu allan i Lundain. Mae'r Bil yn ceisio ei gwneud yn bosibl i luosyddion gwahaniaethol gael eu gosod o dan derfynau penodol y gellir eu hystyried i fynd i'r afael ag anghenion yn y dyfodol, er na fwriedir eu defnyddio eto.

1. Busnesau bach - mae busnesau bach yn Lloegr a'r Alban yn destun lluosydd is. Pe bai Llywodraeth Cymru yn gallu gwneud hyn, byddai llai o alw am Ryddhad Ardrethi Busnesau Bach.
2. Disgrifiadau mewn rhestr leol - gosod lluosydd gwahanol mewn sectorau penodol sy'n cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru. Gallai hyn hefyd leihau'r angen am ryddhad ardrethi wedi'i dargedu.
3. Lleoliad eiddo - ystyried ffactorau daearyddol sy'n gysylltiedig ag amcanion llywodraeth ehangach.

Rydym yn cefnogi hyn mewn egwyddor, fodd bynnag mae'n rhaid i unrhyw gynnig i osod lluosydd gwahaniaethol gael ei archwilio a'i drafod yn drylwyr. Rydym yn gweld y budd posibl ond yn dal i bryderu am wneud y system yn fwy cymhleth.

- **Gosod dyletswydd ar drethdalwyr i ddarparu mathau penodol o wybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, a gwneud darpariaeth i'r gyfundrefn gydymffurfio gysylltiedig; a**

Mae gwybodaeth gywir yn allweddol i sicrhau bod y sylfaen drethu yn gyfredol ac yn gweithredu'n effeithiol. Mae'r Bil yn cynnig gosod dyletswyddau ar drethdalwyr i ddarparu gwybodaeth reolaidd a phenodol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio i sicrhau bod y dystiolaeth brisio'n cael ei diweddaru'n gyson.
Bydd hyn yn nodi newid yn y modd y bydd trethdalwyr yn ymgysylltu ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi pa ddatblygiadau i'r gwasanaeth fydd yn angenrheidiol. Mae angen i'r Bil roi sicrwydd mai dim ond unwaith y bydd y gwasanaeth yn gwbl weithredol yn y dyfodol y bydd y ddyletswydd hon yn berthnasol.
Bydd cyfundrefn gosbi hefyd yn cael ei chyflwyno fel modd o atal diffyg cydymffurfio yn unol â gweithrediad trethi eraill (CaThEF).

Rydym yn cefnogi cyflwyno'r ddyletswydd hon mewn egwyddor.

- **gwneud darpariaeth ynghylch gwrthweithio manteision sy'n deillio o drefniadau osgoi artiffisial.**

Er nad yw osgoi yn anghyfreithlon, mae'n bwysig nad yw'r system yn cael ei pheryglu. Mae cyflwyno Rheol Gyffredinol yn Erbyn Osgoi Trethi yn sicrhau bod y system yn gydnaws â gweithrediadau CaThEF a Llywodraeth ddatganoledig yr Alban sydd â rheol benodol ar gyfer ardrethi annomestig. Bwriad y rheol yw ymateb i ymddygiadau osgoi trethi a'u gwrthbwyso.

Rydym yn cefnogi'r ddarpariaeth hon.

5. **O ran system treth y cyngor mae'r Bil yn cynnig:**

- **darparu hyblygrwydd i'r pwynt cyfeirio ar gyfer 100% yn y strwythur bandio i gael ei newid i fand gwahanol neu i ddisgrifiad gwahanol o fand.**

Mae'r system bresennol wedi gweithio'n dda gyda'r strwythur 9 band (8 band cyn hynny). Ni fydd newid y pwynt cyfeirio yn ôl yr angen, yn tanseilio sefydlogrwydd y system dreth ond bydd yn sicrhau ei fod yn parhau'n hawdd i'w ddeall. Gallai ailenwi'r bandiau fod yn fuddiol os yw ailbrisiad yn darparu tystiolaeth ar gyfer ychwanegu bandiau, yn enwedig yn y pen isaf. Gellid dileu'r dryswch a allai godi rhwng, er enghraifft A1, A2, A, B, trwy symud pwynt cyfeirio Band D. Mae cael confensiwn enwi clir a dilyniannol yn hyrwyddo tryloywder ac yn sicrhau bod y dreth yn parhau i fod yn hawdd ei deall.

Rydym yn cefnogi'r ddarpariaeth hon.

- **rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â gostyngiadau ac unigolion y dylid eu diystyru.**

Fel y nodwyd, mae'r rhan fwyaf o'r fframwaith presennol wedi bod yn ei le ers i Dreth y Cyngor ddod i rym yn 1993 gyda chanrannau sefydlog o 25/50%. Byddai rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddileu'r cysylltiadau presennol (h.y. rhaid i ostyngiad eiddo gwag fod yn ddwbl % un oedolyn) yn sicrhau bod y system yn decach i bawb a hefyd yn lleihau cymhlethdod.

Cynigir hefyd y gellir rhoi pwerau i awdurdodau lleol ddileu neu ostwng gostyngiadau mewn rhai amgylchiadau - byddai hyn yn help i gael gwared ar y dryswch presennol o fewn y system bresennol lle mae cynghorau'n cael eu cyfyngu gan ddeddfwriaeth ond eto'n cael pwerau dewisol mewn rhai meysydd.

Rydym yn cefnogi'r ddarpariaeth hon i roi pwerau i Weinidogion Cymru.

- **rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i greu un Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor cenedlaethol trwy reoliadau a galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol am y ffordd y dylid defnyddio'r cynllun.**

Mae'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor presennol yn effeithiol ac wedi gwrthsefyll amser o ran darparu cymorth ariannol parhaus i aelwydydd ar incymau isel. Fodd bynnag, mae digwyddiadau diweddar wedi dangos bod diffyg hyblygrwydd yn y cynllun.

Mae'r dull presennol yn nodi bod yn rhaid i bob awdurdod lleol fabwysiadu ei Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor erbyn 31 Ionawr cyn ei weithredu ar 1 Ebrill. Unwaith y

bydd cynllun wedi cael ei fabwysiadu, ni ellir ei newid nes y flwyddyn ariannol nesaf. Yn ystod pandemig Covid a'r argyfwng costau byw, nid oedd modd rhoi unrhyw gymorth ychwanegol trwy'r dull hwn ac eto, roedd yn rhaid i awdurdodau lleol ddibynnu ar bwerau dewisol. Mae gosod dyletswydd ar Weinidogion i wneud un cynllun cenedlaethol sy'n cwmpasu meysydd disgresiwn lleol, yn darparu dull gweithredu cyson ac yn bwysicach fyth, yr hyblygrwydd i ymateb i unrhyw ddigwyddiad a allai godi.
Bydd darparu canllawiau yn sicrhau bod y rheoliadau'n cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac yn rhoi sicrwydd i awdurdodau a threthdalwyr.

Rydym yn cefnogi'r cynnig hwn gan ei fod yn lliniaru'r pwysau ar awdurdodau lleol.

- **sefydlu cylched ailbrisio bob pum mlynedd, a phŵer i Weinidogion Cymru newid y flwyddyn ailbrisio a'r cyfnod rhwng ailbrisiadau, yn ogystal â newid dyddiad cyhoeddi'r rhestr ddrafft trwy orchymyn; a**

Bydd sefydlu proses ailbrisio rheolaidd yn sicrhau bod trethdalwyr yn talu tâl sy'n gymharol â'r hinsawdd economaidd bresennol. Rydym wedi gweld o ardrethi annomestig bod yr angen i fod yn adweitheddol i newid ariannol ac economaidd yn cael ei geisio ar draws gwledydd Prydain. Mae gosod yr un egwyddorion ar dreth y Cyngor yn sicrhau bod pob trethdalwr yn cael eu trin yn deg.

Ar ôl aros am 20 mlynedd am ailbrisiad, yn naturiol mae pryder am yr effeithiau posibl ar unigolion. Mae symud i gylched ailbrisio rheolaidd yn rhoi sicrwydd bod y dreth gywir yn cael ei chodi, ac mae'r bandiau eiddo yn cael eu hadolygu i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

Rydym yn cefnogi'r ddarpariaeth hon gan ei bod yn cyflwyno dull o ymateb i'r hinsawdd economaidd bresennol.

- **disodli'r gofyniad presennol i gyhoeddi gwybodaeth mewn papurau newydd â gofyniad i gyhoeddi hysbysiad o daliadau treth y cyngor ar wefan yr awdurdod lleol a rhoi trefniadau amgen addas ar waith i sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn hygyrch i ddinasyddion sy'n cael anhawster i gael mynediad at gyfleusterau ar-lein.**

Mae gostyngiad wedi bod yn y wasg argraffu, yn enwedig ar lefel leol, ers nifer o flynyddoedd. Pan gyflwynwyd y ddarpariaeth hon yn 1992 nid oedd dull cyfathrebu torfol arall ar gael ond mae cyfryngau digidol a chymdeithasol wedi disodli hyn. Amcangyfrifir bod y gwariant blynyddol ar gyhoeddi gwybodaeth oddeutu £33,000 sy'n ymddangos yn swm bach, ond eto nid yw'n dod ag unrhyw fuddion diriaethol. Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos faint sydd wedi darllen yr erthygl.
Mae'r Bil yn cynnig disodli'r ddarpariaeth hon gyda'r gofyniad bod yr awdurdod lleol yn cyhoeddi gwybodaeth ar ei wefan ac yn rhoi trefniadau mewn lle i'r rheiny nad ydynt yn defnyddio sianeli ar-lein. Mae gan awdurdodau lleol brofiad helaeth o sicrhau bod mynediad at wybodaeth a gedwir yn electronig ar gael i'r rhai sydd wedi'u hallgau'n ddigidol.
Rydym yn cefnogi disodli'r gofyniad hwn.

---

**Cliriwyd gan:** Cynghorydd Anthony Hunt, Llefarydd CLlLC ar Gyllid

**Awduron:** Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau
Lisa Hayward, Swyddog Polisi Cyllid

**Rhif ffôn:** 07979018007
**E-bost:** jon.rae@wlga.gov.uk